**Awdurdod Parc Cenedlaethol**

**14 Rhagfyr 2022**

Yn bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Dr SL Hancock, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd Mrs M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams.

Yn bresennol (o bell)
Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd Mrs V Thomas a'r Cynghorydd A Wilcox.

[Cyrhaeddodd Mrs S Hoss o bell adeg ystyried materion yn codi o'r cofnodion (Cofnod 4) a chyrhaeddodd Dr RM Plummer o bell, ar ôl ymddiheuro y byddai'n hwyr, adeg Cyhoeddiadau'r Cadeirydd (Cofnod 5).]

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00yb –
11.50am; 12.00pm – 2.00pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, er bod Dr R Plummer wedi rhoi gwybod y byddai'n ymuno yn ddiweddarach.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol (personol) ynghylch ei haelodaeth o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel ymddiriedolwr Plantlife.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022.

**4. Materion yn codi**
(i) Log Gweithredu
Roedd un neu ddau o'r Aelodau yn bryderus nad yw camau a godir gan yr Aelodau yn cael eu gweithredu naill ai drwy beidio â chael eu cynnwys yn y cofnodion neu bod y swyddogion heb gymryd y camau gofynnol. Awgrymwyd y dylid cofnodi camau gweithredu mewn print trwm yn y cofnodion, a chynigiwyd ac eiliwyd hynny. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ei bod o'r farn bod y cofnodion yn gofnod o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod, ac awgrymodd y

gallai camau gweithredu gael eu cofnodi mewn atodiad neu eu cynnwys fel eitem sefydlog ar wahân ar yr agenda. Hefyd dywedodd bod rhai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau wedi'u trafod mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag gan na wnaed unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor i dderbyn y pwyntiau hyn, ni fyddent yn cael eu cynnwys yn y cofnodion. Eglurodd pe bai'r Aelodau yn dymuno i weithred gael ei chrisialu, megis pe baent am roi camau gweithredu penodol i swyddog, yna y ffordd gliriaf o wneud hynny oedd i'r Aelodau sicrhau bod eu pwyntiau yn cael eu nodi mewn unrhyw gynnig a gyflwynir.

Gofynnodd sawl Aelod pe bai Log Gweithredu ar wahân yn cael ei greu bod y camau gweithredu yn cyfeirio at gofnod cyfarfod penodol fel bod dolen gyswllt rhwng y ddau.

**Penderfynwyd** rhoi'r dasg i'r swyddogion o ddyfeisio proses ar gyfer cofnodi logiau gweithredu ar gyfer yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a phob un o'i Bwyllgorau a bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn monitro'r logiau a'u diweddaru wrth i'r camau gweithredu gael eu rhoi ar waith.

(ii) Ariannu Cyfleusterau Cyhoeddus (Cofnod 11)
Er bod yr Aelodau wedi cael nodyn byr o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Penfro (CSP) a Chroeso Sir Benfro fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd am unrhyw adborth neu sylw ychwanegol. Dywedodd y Cadeirydd, er bod yr Awdurdod wedi cyflwyno cynnig i wneud cyfraniad tymor byr er mwyn rhoi cyfle i archwilio posibiliadau tymor hwy, yn anffodus ni fu unrhyw gytundeb yn bosibl ac felly gallai'r toiledau gael eu cau. Ychwanegodd y byddai rhai Aelodau yn ymwybodol bod llythyrau wedi'u hanfon at Gynghorau Cymuned perthnasol i ofyn a oeddent yn barod i gymryd y cyfrifoldeb drwy gynyddu eu praeseptau, ond roedd o'r farn bod y rhagolygon o barhau i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus yn Sir Benfro yn weddol ddu. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, gan mai penderfyniad i'r Cyngor Sir oedd hwn, nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw gynlluniau pellach i ymgysylltu â'r Cyngor ar y mater hwn, oni bai bod yr Aelodau yn penderfynu fel arall.

Roedd yr Aelodau yn siomedig â'r canlyniad ac o'r farn y byddai cau cyfleusterau cyhoeddus yn gam yn ôl. Pe bai hynny'n digwydd, roeddent hefyd yn pryderu am effaith colli traethau baner las yn y sir; eu gobaith oedd y byddai CSP yn parhau i archwilio pob llwybr i'w cadw ar agor. Awgrymodd rhai Aelodau bod angen cael trafodaeth bellach, ac er bod swyddogion yn hapus i wneud hynny, dywedodd y Prif Weithredwr bod angen mwy o eglurder gan yr Aelodau ynghylch yr hyn y gellid ei gynnig. Awgrymodd y gallai Aelod gyflwyno Rhybudd o Gynnig mewn cyfarfod yn y dyfodol fel modd o fwrw ymlaen â hyn.

**Nodwyd.**

(iii) Gweithgor Strategaeth y Gymraeg (Cofnod 14)
Dywedwyd bod Dr R Heath-Davies a Dr M Havard wedi cynrychioli Aelodau'r Awdurdod ar y Gweithgor hwn oedd wedi cyfarfod yn ystod mis Tachwedd. Os oedd gan unrhyw Aelod unrhyw syniadau i'w cynnwys yn y strategaeth nesaf i hybu'r Gymraeg, gofynnwyd iddynt roi gwybod a'u hanfon ymlaen.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod ar-lein â'r Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AoS, a bod hwn wedi bod yn gyfarfod cadarnhaol yn ymdrin â phynciau megis cyllid ac amrywiaeth yn yr Awdurdod. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, er bod cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi'n gynharach yn yr wythnos, nad oedd y ffigurau yn glir a dim ond arwydd y byddai'r Awdurdod yn derbyn cyllideb llinell sefydlog y flwyddyn nesaf yr oedd yr Awdurdod wedi'i dderbyn. Y gobaith oedd y byddai mwy o wybodaeth ar gael ar gyfer y gweithdy ar y gyllideb oedd i'w gynnal yr wythnos ganlynol.

Aeth y Cadeirydd rhagddi i ddweud ei bod wedi cyflwyno siec o £500 yn ddiweddar fel nawdd i Nofio Gŵyl San Steffan Dinbych-y-pysgod a'i bod wedi mynychu gwasanaeth Coffa wrth y Gofadail yn Hwlffordd. Dywedodd hefyd ei bod hi a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y diwrnod cynt ac wedi cael sgwrs gadarnhaol ac eang ei chwmpas. Yn olaf, dywedodd mai trist oedd datgan bod y cyn Gynghorydd Sir John Allen-Mirehouse wedi'n gadael, a'i bod wedi cydymdeimlo â'i deulu ar ran yr Awdurdod. Roedd wedi gwasanaethu ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol am 20 mlynedd a mwy, a thalodd y Cynghorydd Dr S Hancock deyrnged iddo, ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn gyd-Gynghorwyr. Cynhaliodd y cyfarfod funud o dawelwch fel arwydd o barch.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried/er gwybodaeth:

(i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 ac ar 16 Tachwedd 2022;
(ii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 21 Medi 2022.

Dywedodd un Aelod bod y cofnodion hyn yn enghraifft wych o gofnodion oedd yn canolbwyntio ar weithredu. Hefyd dywedodd yr Aelod ei bod yn ymwybodol bod y Safon Iechyd Corfforaethol (y cyfeirir ati ym mharagraffau 11 a 12(iv)) yn newid ac nad oedd asesiadau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd; byddai'n rhoi diweddariad pan fyddai mwy o wybodaeth ar gael. Sylwyd hefyd bod gwall teipio yn y gair Saesneg “morale” ym mharagraff 12(iv).

(iii) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022; a’r
(iv) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2022.

Gofynnwyd i’r swyddogion ail-anfon y ddolen gyswllt i'r adroddiadau ar Seiberddiogelwch, oedd wedi'u dosbarthu i bob Aelod, gan fod y ddolen hon wedi dod i ben.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Diweddariad ar y Rhybudd o Gynnig bod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Llandyfái, ac unrhyw bartïon sydd â buddiant, naill ai i roi neu werthu tir yn Freshwater East ar gyfer darparu lle chwarae i blant.**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Rhybudd o Gynnig hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gynharach yn y flwyddyn, a phenderfynwyd bod swyddogion yn cyfathrebu ymhellach â Chyngor Cymuned Llandyfái ynghylch darparu lle chwarae i blant yn Freshwater East ac adrodd yn ôl.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Swyddog Ystadau wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandyfái yn yr hydref ac wedi egluro, er bod yr Awdurdod yn hapus i weithio gyda hwy ar y mater hwn, bod angen yn y lle cyntaf iddynt gyflwyno cynnig sylweddol i'w ystyried. Nid oedd dim byd pellach wedi'i glywed oddi wrth y Cyngor Cymuned ers y cyfarfod hwnnw, felly roedd y pwynt gweithredu y cytunwyd arno yn parhau yn eu dwylo hwy.

Dywedwyd bod y Pwyllgor wedi cytuno yn flaenorol, pe na bai dull gweithredu pellach wedi dod i law, y byddai’r Rhybudd o Gynnig yn cael ei ystyried fel un oedd wedi’i gau. Roedd hyn wedi’i gyfleu i'r Cynghorydd Kidney, oedd wedi codi'r mater yn y lle cyntaf, ond nad oedd bellach yn Aelod o'r Awdurdod. Ychwanegodd bod yr Awdurdod yn parhau yn hapus

i weithio gyda'r Cyngor Cymuned pe baent yn cyflwyno unrhyw gynigion yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**8. Ymateb APCAP i Archwilio Cymru – Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 - galw am weithredu**

Dywedwyd bod Archwilydd Cyffredinol Cymru fis Gorffennaf 2022 wedi cyhoeddi adroddiad Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, oedd yn nodi pum galwad am gamau gweithredu i sefydliadau fynd i’r afael â’r rhwystrau cyffredin i ddatgarboneiddio yn y sector cyhoeddus. Nid oedd yr adroddiad wedi gwneud argymhellion penodol o ystyried natur lefel uchel yr adolygiad. Fodd bynnag, roedd yn annog cyrff cyhoeddus i ystyried y negeseuon yn yr adroddiad, a thrwy eu strwythurau llywodraethu mewnol, nodi’n gyhoeddus sut oeddent yn bwriadu ymateb i’r galwadau am weithredu.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn nodi’r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod hyd yn hyn yn erbyn y galwadau hyn am weithredu, a’r gweithgareddau yn y dyfodol fyddai'n cynorthwyo’r Awdurdod i gyflawni ymhellach yn erbyn y galwadau am weithredu o dan y penawdau Arwain a Chydweithio; Cyfeiriad Strategol; Cyllid; Bylchau Sgiliau a Chynyddu Capasiti; a Data.

Roedd llawer o'r cynnydd wedi'i nodi yng Nghynllun Gweithredu yr Awdurdod ar Ymateb i’r Argyfwng Newid Hinsawdd (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) oedd wedi'i gymeradwyo gan yr Aelodau fis Mehefin 2020. Roedd y datblygiadau a’r cyflawniadau allweddol o dan y cynllun hwn wedi’u nodi yn Atodiad 1. Fodd bynnag, dywedwyd y byddai'r cynllun hwn yn cael ei ddisodli gan greu'r Cynllun Cyflawni ar Ddatgarboneiddio a'r Cynllun Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd, fyddai'n ategu cyflawni yn erbyn canlyniadau o dan Amcan newydd yr Awdurdod ar Lesiant Hinsawdd, ac y byddai'r Cynllun newydd hwn yn cael ei lywio ymhellach gan gyflwyniad Sero Net yr Awdurdod ar gyfer 2021/22 i Lywodraeth Cymru a’r dadansoddiad data traws-flwyddyn a nodir yn Atodiad 2.

Eglurodd y swyddog nad oedd rheidrwydd ar yr Awdurdod i gyflwyno ymateb i'r Cais am Weithredu a bod nodi camau gweithredu a bwriadau'r Awdurdod yn gyhoeddus yn ddigonol. Eglurodd hefyd mai'r targed i'r Awdurdod fod yn garbon niwtral oedd 2030, tra mai 2040 oedd y nod ar gyfer niwtraliaeth carbon y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.

Dywedodd yr Aelodau bod yr adroddiad yn cynnwys llawer o wybodaeth, ond barnent y gallai fod mwy o bwyslais ar y newidiadau diweddar i

weledigaeth a strategaeth yr Awdurdod, a'r ailstrwythuro a ddeilliodd o hynny, oedd wedi'i ysgogi gan y galw am garbon sero net a'r argyfwng hinsawdd. Gofynnwyd nifer o gwestiynau manwl, yn enwedig ynghylch y dull o wreiddio'r targed ar gyfer niwtraliaeth carbon o fewn cynllunio, ac atebwyd y cwestiynau hyn gan y Cyfarwyddwr.

Roedd Matthew Brushett o Archwilio Cymru wedi mynychu'r cyfarfod, a diolchodd i'r swyddogion am adroddiad cynhwysfawr, y dywedodd ei fod wedi'i anfon ymlaen at y tîm oedd wedi ysgrifennu'r adroddiad.

**Nodwyd.**

[Ymddiheurodd y Cynghorydd M James a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem ganlynol.]

**9. Adolygu’r drefn o gynnig Tocyn Tymor i Feysydd Parcio APCAP cyn dechrau Tymor 2023**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn cynnig 2 fath o docyn tymor - roedd un math o docyn yn ddilys i'w ddefnyddio yn unrhyw un o'i feysydd parcio ac yn costi £70 tra bod y llall wedi'i gyfyngu i'w ddefnyddio mewn un lleoliad a enwir yn unig ac yn costi £25. Roedd y ddau docyn ar gael i bawb, heb unrhyw feini prawf cymhwyso na chyfyngiad ar y niferoedd a roddir. Roedd yr adroddiad yn nodi gwybodaeth gefndir a data cymharol â gweithredwyr meysydd parcio eraill yn Sir Benfro, a hefyd yn cynnwys asesiad o effaith y cynnydd arfaethedig mewn prisiau, ac ymateb y swyddogion i'r effeithiau a glustnodwyd. Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo prisiau uwch o £140 a £50 ar gyfer y tocynnau tymor yn y drefn honno a hefyd i drosglwyddo’r costau postio i'r prynwr.

Gan gyfeirio at yr Asesiad Effaith Integredig oedd wedi'i ddrafftio'n dda, gofynnodd un Aelod am y mesurau lliniaru arfaethedig o ran yr effaith o gynyddu taliadau ar gartrefi difreintiedig. Atebodd y swyddogion mai ychydig o wybodaeth oedd gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ynghylch pam y prynir tocynnau, a'r bwriad oedd ceisio cael y wybodaeth hon er mwyn cael mwy o dystiolaeth wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd yr Awdurdod wedi’i sefydlu i roi cymorth i gartrefi difreintiedig, a byddai'n gweithio gyda sefydliadau eraill oedd â mecanweithiau priodol yn eu lle, megis banciau bwyd, i archwilio ymatebion posibl.

Mynegodd yr Aelodau ystod eang o safbwyntiau ar y pwnc o brisio a darparu tocynnau, ac awgrymwyd y dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried darparu tocynnau tymor, yn ogystal â phris tocynnau talu ac arddangos, yn nhymhorau'r dyfodol. Barnwyd hefyd bod angen adolygiad mwy rheolaidd o’r taliadau a godir am barcio, ac wrth roi cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad hwn roedd angen pwysleisio bod y prisiau newydd yn dal i fod yn werth da am arian.

**Penderfynwyd** : _

a) codi pris tocynnau tymor i £50 i'w defnyddio mewn un maes parcio a enwir, gydol y tymor, a £140 i'w defnyddio ym mhob maes parcio yr Awdurdod Parc Cenedlaethol gydol y tymor. Hefyd bod costau postio yn cael eu trosglwyddo i'r prynwr; a
b) sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried darparu tocynnau tymor a thaliadau meysydd parcio yn y dyfodol.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.50am a 12.00pm]

**10. Diwygio Cynllun yr Awdurdod ar Ddirprwyo materion Cynllunio**

Atgoffwyd yr Aelodau bod diwygiadau dros dro i Gynllun yr Awdurdod ar Ddirprwyo materion Rheoli Datblygu wedi'u cytuno gyntaf ar 6 Mai 2020 a'u hymestyn sawl gwaith, yn fwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2021. Roedd y diwygiadau hyn wedi'u cyflwyno i gynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau parhad y gwasanaeth Rheoli Datblygu yn ystod cyfnod Covid-19. Byddai rhai elfennau o’r diwygiadau dros dro bellach yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2022, ond cynigiwyd bod rhai yn cael eu cadw fel diwygiadau parhaol. Cynigiwyd rhai diwygiadau ychwanegol hefyd i wneud y Cynllun yn fwy eglur a sicrhau bod unrhyw bwerau newydd a gyflwynir yn cael eu cynnwys yn ddiymdroi gan eiriad y cynllun. Roedd copi o'r testun newydd llawn ar gyfer Adran D o'r Cynllun Dirprwyo (Ceisiadau Cynllunio a Materion Cysylltiedig) ynghlwm yn Atodiad 2, a gofynnwyd i'r Aelodau ddiwygio'r Cynllun yn unol â hynny.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu bod hwn yn adolygiad trylwyr a gofalus fyddai'n ddefnyddiol o ran ceisio rhesymoli faint o waith sy'n dod gerbron y Pwyllgor ac felly ganiatáu i'r ceisiadau hynny oedd yn dod gerbron gael eu hystyried yn briodol. Dywedodd ei bod yn arferiad gan yr Awdurdod i gylchredeg y ceisiadau hynny oedd yn cael eu dirprwyo gyda chytundeb Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor i bob Aelod am sylwadau ymlaen llaw, a gofynnodd a oedd yn bosibl cynnwys hyn yn y cynllun. Cytunodd y Cyfarwyddwr y gellid ychwanegu troednodyn i'r perwyl hwnnw. Dywedodd hefyd, mewn ymateb i gwestiwn, nad oedd unrhyw geisiadau mawr wedi'u dirprwyo yn ystod y cyfnod dirprwyo estynedig, ac yn ymarferol nid oedd yn disgwyl i'r maen prawf hwn gael ei ddefnyddio yn rheolaidd.

Roedd mân newidiadau eraill wedi’u hawgrymu drwy’r e-bost cyn y cyfarfod a rhai gwallau teipio wedi’u clustnodi, a dywedodd bod angen diweddaru’r Cynllun Dirprwyo presennol yn ei gyfanrwydd, megis i gynnwys teitlau swyddi a ddiwygiwyd fel rhan o ad-drefnu’r Awdurdod a newid enw'r Pwyllgor Personél. Felly cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad i gymeradwyo'r Cynllun diwygiedig yn amodol ar y mân ddiweddariadau ffeithiol hyn a chywiro’r gwallau teipio.

Awgrymodd Aelod arall y dylid dod â cheisiadau newydd neu ddadleuol gerbron y Pwyllgor. Fodd bynnag dywedodd y swyddog bod pwynt 10 o'r Cynllun yn caniatáu i geisiadau oedd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd a/neu i'r Aelodau neu lle ystyrir bod y mater yn gynhennus neu'n ddadleuol ddod gerbron y Pwyllgor.

Serch hynny, atgoffodd Aelod arall yr Aelodau bod y cynllun dirprwyo estynedig wedi'i gyflwyno oherwydd yr anawsterau a achoswyd gan y Pandemig Covid, a barnai y dylai'r Cynllun yn awr ddychwelyd i'r geiriad a fabwysiadwyd yn flaenorol, a chynigiwyd ac eiliwyd hyn. Roedd yn arbennig o awyddus bod ceisiadau lle'r oedd barn y Cyngor Tref neu Gymuned yn wahanol i farn swyddogion yn dod gerbron y Pwyllgor er budd democratiaeth, ac i ganiatáu i'r Cynghorau deimlo bod eu lleisiau wedi'u clywed. Nodwyd bod diwygiadau eraill wedi'u cynnig i'r Cynllun yn ychwanegol at y tri maen prawf y cytunwyd arnynt fel estyniad dros dro mewn ymateb i Covid, ac o ganlyniad cyngor y swyddogion oedd y dylid cynnal pleidlais ar y cynnig gwreiddiol i gymeradwyo'r cynllun diwygiedig a phetai yn methu â llwyddo, effaith hynny fyddai bod y Cynllun Dirprwyo yn dychwelyd i'w gyflwr cyn-Covid.

**Penderfynwyd** diwygio'r cynllun dirprwyo Adran D o ran ceisiadau cynllunio a materion cysylltiedig fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a'i nodi'n llawn yn Atodiad 2 a bod y Cynllun Dirprwyo cyfan yn cael ei adolygu i gywiro gwallau teipio a mân ddiweddariadau ffeithiol.

**11. Aelod Arweiniol ar Seiberddiogelwch**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, yn ei gyfarfod fis Tachwedd, wedi trafod gohebiaeth gyfrinachol oddi wrth Archwilio Cymru ar Seiberddiogelwch. Wrth ystyried yr eitem hon roedd yr Aelodau wedi cydnabod pa mor bwysig yw'r mater hwn a'r angen i sicrhau eu bod yn fwy gwybodus ac yn gallu ceisio sicrwydd bod yr Awdurdod yn cymryd camau priodol i amddiffyn ei hun rhag ymosodiadau seiber. Awgrymwyd felly y byddai'n fuddiol penodi Aelod Arweiniol ar Seiberddiogelwch. Byddai'r Aelod hwn yn ymgysylltu â'r Adran TG a'r swyddogion arweiniol yn yr Awdurdod i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r materion ac i allu cynorthwyo Aelodau eraill wrth gwestiynu a cheisio sicrwydd ar y modd y mae'r Awdurdod yn amddiffyn ei hun rhag ymosodiadau seiber.

Dywedwyd bod pob Aelod yr un mor gyfrifol am sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei lywodraethu yn dda, a gwneud yn siŵr bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â gofynion cyfreithiol a hefyd arferion da, felly ni fyddai gan yr Aelod Arweiniol unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd ychwanegol. Fodd bynnag, byddai'n derbyn yr hyfforddiant a'r cymorth mwy arbenigol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r materion seiber.

Ychwanegodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol bod y Pwyllgor, wrth argymell bod Aelod Arweiniol yn cael ei benodi, yn dymuno efelychu sefydliadau llwyddiannus eraill drwy gael rhywun i hyrwyddo'r maes hwn o waith, i ofyn y cwestiynau cywir ac i gadw seiberddiogelwch ar flaen meddwl pawb. Dywedodd unwaith y byddai'r swyddogion wedi asesu'r adroddiadau yn llawn, y byddai rhyw fath o gynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod, a hefyd y byddai pob Aelod yn derbyn hyfforddiant yn y maes hwn. Ategodd Dr R Plummer yr egwyddor o gael hyrwyddwr, ac awgrymodd y gellid trafod hyfforddiant yn y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau. Ychwanegodd ei bod yn hapus i gael ei hystyried fel yr Aelod Arweiniol pe bai hynny o gymorth.

**Penderfynwyd** penodi Dr R Plummer yn Aelod Arweiniol dros Seiberddiogelwch.

**12. Diweddariad ar y prosiect o gael contractwr yn dilyn y broses dendro ar gyfer Prosiect Ailddatblygu'r Ystafell Werdd**

Atgoffwyd yr Aelodau y cytunwyd mewn egwyddor fis Medi 2021 i newid yr Ystafell Gyfarfod Werdd ar y sail y byddai 'Grŵp Datblygu'r Ystafell Werdd' yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiect ac y byddai manylion pellach am y cynnig terfynol yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod am gymeradwyaeth.

Rhoddodd y Rheolwr Prosiectau Adeiladau ddiweddariad i'r Aelodau, yn dilyn cymeradwyo'r cynlluniau a'r rheoliadau adeiladu a chwblhau'r broses fanwl o ddylunio, bod y gwaith o baratoi'r pecyn tendro wedi'i gwblhau fis Hydref a chytundeb wedi'i wneud mewn cyfarfod o'r Grŵp Datblygu i ofyn am wahoddiadau i dendro drwy'r porth GwerthwchiGymru. Yn anffodus nid oedd unrhyw gynigion tendro ffurfiol wedi'u dychwelyd drwy'r porth erbyn y dyddiad dychwelyd, ac awgrymodd y swyddog bod hyn yn debygol o fod yn bennaf oherwydd cyflwr presennol y farchnad. Cynigiwyd felly y dylai strategaeth y dyfodol gynnwys proses o ddychwelyd tendrau mewn dau gam, gyda rhag-gymhwyso ar GwerthwchiGymru erbyn mis Mawrth 2023 ac ail gam gyda'r contractwyr dethol i'w gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2023. Y bwriad i ddechrau'r gwaith adeiladu fyddai mis Awst/ Medi 2023 a disgwylir cwblhau'r gwaith fis Mawrth 2024. Byddai diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno wrth i'r broses fynd rhagddi a chyn penodi contractwr.

Er bod yr Aelodau yn siomedig nad oedd tendrau wedi'u dychwelyd, dywedwyd bod hyn yn amlygu eu profiad mewn llefydd eraill. Tra bod un Aelod yn cwestiynu a ddylai'r prosiect barhau, roedd y rhan fwyaf yn cytuno ei bod yn werth mynd allan i dendr unwaith eto, ac o'r farn unwaith y byddai'r "farchnad" wedi sefydlogi y byddai prosiect adeiladu o'r fath yn

atyniadol. Awgrymwyd hefyd bod rhywfaint o waith ychwanegol yn cael ei wneud i hyrwyddo'r contract cyn y broses dendro.

**Nodwyd.**

**13. Diweddariad yn dilyn y cyfarfod diweddar o Gyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru**

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod trafodaethau wedi parhau ers i'r Cyd-Bwyllgor gael ei sefydlu ynglŷn â rôl yr Awdurdod yn y Cyd-Bwyllgor. Roedd cyfaddawd bellach wedi'i gytuno lle byddai'r Awdurdod yn cael ei gyfethol i'r Cyd-Bwyllgor a'i Is-bwyllgorau. Byddai cytundeb cyfethol yn cael ei lunio, a byddai'r cytundeb hwn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

[Ymddiheurodd y Cynghorwyr Simon Hancock, Rhys Jordan a Steve Alderman a Dr R Heath-Davies gan adael y cyfarfod yn ystod y cyflwyniad canlynol.]

**14. Cyflwyniad ar waith Croeso Sir Benfro dros y flwyddyn ddiwethaf gan ei Brif Weithredwr Emma Thornton**

Gan ymddiheuro bod y cyfarfod y diwrnod hwnnw yn gyfarfod hir, estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Emma Thornton i'r cyfarfod. Roedd ei chyflwyniad yn ymdrin â gwaith Croeso Sir Benfro dros y flwyddyn flaenorol, a dechreuodd drwy ailadrodd, er budd yr Aelodau mwy newydd, ei rôl fel y sefydliad rheoli cyrchfan Sir Benfro, gyda ffocws craidd ar adeiladu twristiaeth gynaliadwy er budd y trigolion lleol a'r rhai sy'n ymweld â Sir Benfro, ac egluro bod y sefydliad yn unigryw yn y modd yr oedd yn gweithio fel partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Elfen allweddol o waith y sefydliad oedd adeiladu Brand Sir Benfro a chydlynu marchnata Sir Benfro fel cyrchfan i dyfu cynulleidfaoedd newydd; roedd hyn i gyd yn cael ei wneud yn ddigidol, a gwelwyd cynnydd yn ei effaith drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn nifer y tanysgrifwyr i'w e-gylchlythyr defnyddwyr oedd yn anelu at lywio'r traffig i wefan Croeso Sir Benfro. Roedd llawer o waith hefyd yn cael ei wneud i ymgysylltu â'r fasnach dwristiaeth a chynyddu aelodaeth y sefydliad. Ategwyd hyn gan waith y sefydliad ym maes arweinyddiaeth ac eiriolaeth oedd â'r nod o sicrhau bod gan y fasnach fynediad at bob ymgynghoriad cyfredol gan Llywodraeth Cymru ac yn cymryd rhan ynddynt.

Roedd llawer o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn flaenorol i gydgysylltu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, oedd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yng ngoleuni covid, yr argyfwng hinsawdd a'r

argyfwng costau byw. Y gobaith oedd cyhoeddi Cynllun Rheoli wedi'i ddiweddaru yn chwarter cyntaf 2023. Gweithgaredd pwysig arall oedd cynnal ymchwil i ddarparu'r data a ddefnyddir fel sail i'r cynllun, megis arolwg o nifer y gwelyau i ymwelwyr a'r arolwg blynyddol i fesur maint economaidd a gwerth twristiaeth yn y Sir.

Roedd Croeso Sir Benfro yn falch iawn o gefnogi'r digwyddiadau mawr a gynhaliwyd yn Sir Benfro yn ystod y flwyddyn – yn arbennig Ironman a Phencampwriaeth Rhwyfo Arfordirol y Byd – ac roedd wedi cynnal ei seremoni wobrwyo ei hun oedd yn cydnabod arfer gorau yn Sir Benfro. Yn ystod y flwyddyn roedd hefyd wedi datblygu prosiect 'Agored i Bawb' gyda'r nod o gefnogi busnesau Sir Benfro i ddod yn fwy hygyrch a chynhwysol i ymwelwyr anabl. Gorffennodd y cyflwyniad gydag amlinelliad o flaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer 2023.

Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Weithredwr am ei chyflwyniad, a chanmol y sefydliad am ei waith, gan gytuno â phwysigrwydd hyrwyddo Sir Benfro fel cyrchfan gydol y flwyddyn. Gofynnwyd i gopi o'r cyflwyniad gael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod. Tynnodd nifer o'r Aelodau sylw at faterion megis diffyg llety yn Sir Benfro ar gyfer defnyddwyr anabl a phrinder staff yn arwain at gau busnesau, ac atebodd nad oedd y ddwy broblem hon yn unigryw i Sir Benfro gan ychwanegu bod prinder sgiliau yn broblem fawr ac yn un o'r rhesymau dros fynd i'r afael â natur dymhorol twristiaeth. Roedd prinder llety ar gyfer staff yn rhan o'r broblem, a dywedodd Emma nad oedd y rhain yn broblemau y gallai Croeso Sir Benfro fynd i'r afael â hwy yn uniongyrchol ond bod angen gwneud hynny ar y cyd.

Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o glywed bod y cyhoedd yn ymgysylltu fwyfwy â 'Brand Sir Benfro' drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd, ond gofynnwyd a oedd hynny yn arwain at gynnydd mewn ymwelwyr. Atebodd Emma ei bod yn anodd gwybod beth oedd yn ysgogi'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, ond roedd yn ymwybodol bod ymgyrchoedd penodol wedi cael effaith ar fusnesau penodol. Mewn ymateb i gwestiwn pellach dywedodd bod gan Croeso Sir Benfro 270 o aelodau busnes, fodd bynnag, canran fach o'r cyfanswm yn Sir Benfro oedd hyn ac roedd cynyddu'r nifer hwn yn ffocws allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, er mwyn dod ag incwm ychwanegol ac i ddatblygu synnwyr o berthyn i 'dîm Sir Benfro'.

**Nodwyd.**

**15. Cyfarchion y Tymor**

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen ac iach i bawb, a diolchodd i'r swyddogion ac i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r cyfarfod y diwrnod hwnnw.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023 heb eu diwygio.